Bron
Brawf

Bron-Brawf Cymru Breast-Test Wales

Sgrinio'r Fron ar gyfer menywod dros 70 oed

Negeseuon allweddol:

- Os ydych dros 70 oed, mae risg o hyd i chi ddatblygu canser y fron.
- Ni fyddwch bellach yn cael apwyntiad sgrinio'r fron yn awtomatig, gan fod diffyg tystiolaeth ar hyn o bryd bod sgrinio'r fron ar gyfer menywod dros 70 oed yn fuddiol.
- Mae astudiaeth yn Lloegr yn edrych ar fanteision a risgiau sgrinio'r fron ar gyfer menywod rhwng 70 a 73 oed. Yn gynnar yn y 2020au, byddwn yn gwybod beth mae'r astudiaeth hon wedi'i ddysgu.
- Os ydych dros 70 oed ac yn awyddus i gael sgrinio, ffoniwch eich swyddfa sgrinio'r fron leol (gweler isod).
- Eich dewis chi yw cael prawf sgrinio'r fron ai peidio.

Rhagor o wybodaeth:

- Mae sgrinio'r fron yn digwydd mewn canolfannau sgrinio ac unedau symudol hygyrch ledled Cymru.
- Dyma'r rhifau ffôn ar gyfer eich canolfannau sgrinio'r fron lleol:
  Gogledd Cymru 01492 860888
  De-ddwyrain Cymru 029 20397222
  Gorllewin Cymru 01792 459988.
- Mae pelydr-x o'r fron (mamogram) yn edrych am arwyddion o ganser y fron.
- Bydd eich prawf yn cael ei gynnal gan aelod benywaidd o staff sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig.
- Os gwelir newidiadau yn eich pelydr-x, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o brofion arnoch.
- Fel pob prawf meddygol, nid yw sgrinio'r fron 100% yn gywir.
- Weithiau, gall prawf sgrinio'r fron ganfod canser na fyddai wedi peri niwed. Mae hyn yn golygu bod rhai menywod yn cael eu trin am ganser y fron er na fyddai'r canser byth wedi rhoi eu bywydau yn y fantol.

Beth allwch chi ei wneud:

- I'ch helpu i benderfynu a ydych am barhau i gael profion sgrinio'r fron, ewch i **www.breasttestwales.nhs.uk** neu siaradwch â'ch Meddyg Teulu.
- Faint bynnag eich oed, mae'n bwysig eich bod yn ymweld â'ch Meddyg Teulu os byddwch yn sylwi ar unrhyw newidiadau i'ch bronnau.

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales